# LC1372

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2006

Bydd y Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn cymryd lle Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2000 ("Rheoliadau 2000") ac yn ychwanegu dosbarth ‘J’ newydd at reol 3 Rheoliadau 2000 i ofalu bod person sy’n ddarostyngedig i Reolaeth Fewnfudo o dan Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1996 yn gymwys i gael cymorth tai os caniatawyd gofal dyngarol iddo/iddi o dan y Rheolau Mewnfudo.

Mae Rheoliadau 2000 yn amodi bod ‘rheoliadau 3, 4, 5 a 6 Rheoliadau Digartrefedd (Lloegr) [2000] i gael effaith yng Nghymru...’. Oherwydd y dull hwn o ddrafftio bydd unrhyw newidiadau dilynol i reoliadau cymhwyster Lloegr (2000) hefyd yn cael effaith yng Nghymru. Bydd dirymu a newid Rheoliadau 2000 yn gwneud newidiadau penodol sydd eisoes wedi eu gweithredu yn Lloegr.

Mae’r Rheoliadau hyn yn ofynnol i weithredu Erthygl 31 ‘Mynediad at lety’ Cyfarwyddeb y Cyngor 2004/83/EC a’i reoliadau mewn perthynas â dyraniadau awdurdodau lleol a chymorth digartrefedd. Mae’r Gyfarwyddeb hon yn gosod rheolau ar gyfer cydnabod ffoaduriaid a’r rhai hynny sydd mewn angen Gofal Cynorthwyol a chynnwys y statws a roddir i bobl o’r fath. Roedd gofyn i Aelod Wladwriaethau drosi Erthygl 31 cyn 9 Hydref 2006. Er mwyn cydymffurfio â’r gofyn hwn gwnaed y Rheoliadau hyn ar 3 Hydref 2006 o dan y weithdrefn weithredol a daethant i rym ar 9 Hydref 2006.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwynt canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliad 2(1) yn cynnwys diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y Rheoliadau. Mae’r testun Saesneg yn diffinio "yr Ardal Deithio Gyffredin" fel "y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon gyda’i gilydd"; mae’r testun Cymraeg yn hepgor y cyfeiriad at Ynysoedd y Sianel. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Pe bai’r Rheoliadau heb eu gwneud o dan y weithdrefn weithredol byddai’r mân wall drafftio hwn wedi bod yn addas i’w gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau. Gan bod preswylio fel arfer yn yr Ardal Deithio Gyffredin yn berthnasol i gymhwysedd personau sydd yn Nosbarth C ac E a bod cymhwysedd person yn Nosbarth F yn dibynnu ar fynediad i’r Deyrnas Unedig o wlad sydd y tu allan i’r Ardal Deithio Gyffredin, credir y dylai’r gwall drafftio hwn gael ei gywiro trwy newid deddfwriaeth cyn gynted â bod hynny’n ymarferol.

## Sylwadau

Mae rhifo rheol 4 y testun Cymraeg yn ymddangos fel rheol 2. Tybir bod hyn o ganlyniad i nam yn y feddalwedd ddrafftio a gellid bod wedi ei gywiro wrth ei gyhoeddi. Gan bod y Rheoliadau wedi eu gwneud gellir cywiro hyn pan wneir y newid i’r ddeddfwriaeth fel y nodir uchod.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 14 Tachwedd 2006